# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
**Nos Iau 17 Tachwedd 2023 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Mary Hayes

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair O Pierce.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Huw Jones, Anwen Jones a Lowri Jones.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Llwybr Rhif 3** – Adroddwyd fod y Clerc a Cyng. Dafydd Roberts wedi cyfarfod gyda'r swyddogion llwybrau ac cytunwyd y bydd Cyngor Gwynedd i edrych i fewn i'r mater. Cadarnhawayd nid oes angen newid categori'r llwybrau er mwyn rhoid arwyddion ayyb ar y llwybr.

3.2 **Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main –** Nodwyd fod y Clerc wedi gael trafodaeth dros ffôn hefo Ian Morgan, Cyngor Gwynedd – Adroddwyd fod Ian Morgan am edrych i mewn i'r posiblrwydd o gael drychau ar dir preifat - ar y gweill.

3.3 **Mainc Pentref Llandygai –** Y pentref wedi derbyn mainc fel anrheg – y Clerc wedi trefnu i osod y mainc yn ei le. Nodwyd fod oedd rhywun arall, efallai trigolion lleol, wedi creu y sylfaen yn barod.

3.4 **Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth –**Adroddwyd y Clerc fod cefn yr hysbyswrdd wedi gael ei drwsio. Nodwyd y Cyng. Dafydd Owen fod rhywun am ei baentio.

3.5 **Seddi Gwag –** Nodwyd fod y Clerc wedi danfon llythyr i holl drigolion ward Llandygai i hysbysebu'r sedd wag, ond heb derbyn unrhyw ymholiadau hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu a Bwrdd Llwyodraethwyr Ysgol Llandygai. Nodwyd hefyd fod dal sedd wag yn ward St Anns hefyd, y Clerc i hysbyebu eto.

3.6 **Biniau Baw Ci –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts yn gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug – ar y gweill.

**3.7 Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt –** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael arhosfan/pull-in bay ger Llys y Gwynt – dim ymateb hyd yn hyn.

**3.8 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy –** estynu'r linell wen a gosod 'road studs coch (Ian Morgan) – ar y gweill.

**3.9 Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci –** angen arwyddion blaenoriaeth un-ffordd ymlaen (Ian Morgan) – ar y gweill.

**3.10 Craig y Pandy** – dŵr yn codi o dan y lôn a golau stryd ddim yn gweithio – y Clerc wedi adrodd i Cyngor Gwynedd – ar y gweill.

**3.11 Welsh Slate – Bwriad o ddadgofrestru tir comin** – Nodwyd fod y Clerc wedi holi Breedon am ail-leoli'r gorlan hanesyddol - noder mai'r syniad oedd i godi gorlan hollol newydd modern ac i drafod hyn gyda'r porwyr lleol.

**3.12 Tipio anghyfreithlon – Lon Dinas –** Nodwyd fod ychwaneg o dipio anghyfreithlon ar hyd Lon Dinas, y Clerc wedi hysbysu Stad Penrhyn. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn holi Cyngor Gwynedd am gyfarfod rhwng y Cyngor Cymuned, Cyngor Gwynedd a Stad Penrhyn, i drafod y sefyllfa, ac i weld os oes modd gael camerau a/neu arwyddion ar hyd y ffordd. – dim ymateb hyd yn hyn.

## 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2023'
**Cyflwynwyd:** Cyng. Beca Roberts/Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd – Llinellau Melyn – Cadwyd trafodaeth ynglyn a'r cynlluniau a phendefynwyd cefnogi'r cynlluniau ym Mhont y Pandy, Cyffordd Waen y Pandy a mynediad Lon Las Ogwen ger modurdy Pandy.
**Cyflwynwyd:** Cari Wyn, YGC – Llifogydd a Tir Comin Mynydd Llandegai – Cytunwyd y bydd y Cyng. Gareth P Williams yn ymweld a Cari i drafod, a'r Clerc i edrych ar hen ddogfennau ac ebyst am y cynllun llifogydd.
**Cyflwynwyd:** Cyngor Gwynedd – Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (2024-2039) – Os oes sylwadau, i ymateb fel unigolion.
**Cyflwynwyd:** Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd - Cynllun Gwaharddau Parcio Arfaethedig – Pant yr Ardd, Tregarth – Penderfynwyd bydd y Cyng. Beca Roberts a'r Clerc yn ymweld â preswylwyr lleol i weld beth yw barn nhw am y cynllun. Nodwyd fod problemau gyda parcio ar hyd y darn yma, ond ein bod yn poeni am llefydd parcio rhai o'r trigolion, yn enwedig preswylwyr Minygraig.

## 5. Llwybrau Cyhoeddus

**Tendr Llwybrau –** Adroddwyd yr is-bwyllgor llwybrau wedi cyfarfod yn ddiweddar, a fod y tendr gwaith yn barod i fynd allan yn yr wythnosau nesaf.
**Cafn dwr ger Moelyci –** Nodwyd fod gan y Cyngor yn pryderu ynglyn a'r cafn dwr sydd yn rhedeg gyferbyn a'r Lon Las Ogwen, sydd wedi bod yno ers blynyddoedd maith - wedi nodi hyn hefo'r swyddogion llwybrau.
**Llwybr Arfordir Port Penrhyn at Aberogwen –** Nodwyd fod y llwybr newydd ddim wedi gael ei ddarfod yn iawn a fod llawer o ddwr ar wyneb y llwybr ochrau Aberogwen. Y Clerc i hysbysu'r swyddog perthnasol.

## 6. Llecyn Tir Bont Twr

Cadarnhawyd fod y Clerc wedi cyfarfod gyda Matt Brown, Cwmni Savills ar y 26ain o Hydref. Adroddwyd fod Cwmni Breedon ddim mewn sefyllfa i drosglwyddo'r tir yn ôl i berchnogaeth y Cyngor Cymuned ar hyn o bryd, a sonwyd am y posibilrwydd o les tymor byr. Nodwyd siom y Cyngor Cymuned gyda'r ymateb hwn, y Clerc i edrych ar yr hen

ddogfennau eto ac i ymateb i Matt fod y tir mewn sylw i fod o dan perchnogaeth y Cyngor Cymuned, ac nid Breedon.

**7. Gwaith y mis**
**Bin Halen Dob –** Nodwyd fod y bin yma dal wedi torri – y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd eto.

**8. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**
**Canolfan Tregarth –** Nodwyd fod cyfarfod blynyddol cyffredinol y Ganolfan yn gael ei gynnal wythnos nesaf.
**Bws B3 –** Adroddwyd fod y newidiadau i gwasanaeth bws B3 yn gweithio'n dda ar hyn o bryd.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**9.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau a mantolen am y flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**10. Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu cyfarfod Mehefin | £199.50 |
| Partneriaeth Ogwen | 74 Stampiau Ail-ddosbarth | £55.50 |

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0448/16/LL** | 7 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Dymchwel adeilad bresennol ac ail godi annedd newydd.<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |
| **C23/0614/16/LL** | Penrala, Tregarth<br>Cais llawn i godi 7 tŷ ynghyd â gwaith cysylltiedig i gynnwys gwelliant i'r fynedfa bresennol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C23/0810/16/DT** | 4 Ffrwd Galed, Tregarth<br>Estyniad un llawr yng nghefn yr annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0777/16/DT** | 14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>estyniad llawr cyntaf newydd yn y cefn ynghyd ag ardal to fflat newydd gydag atriwm<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0728/16/LL** | Cae Clyd Dob, Tregarth<br>Codi annedd teuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C23/0896/16/DT** | 47 Ffordd Tanrhiw, Tregarth<br>Estyniad un llawr yng nghefn yr anedd<br>**Penderfyniad:** |
| **C23/0818/16/LL** | Carreg Hafan, Tregarth<br>Cais cynllunio llawn ar gyfer isrannu ac ymestyn eiddo presennol er mwyn darparu 3 fflat byw â chymorth hunangynhwysol gydag ardaloedd cymunedol ar gyfer staff a thenantiaid<br>**Penderfyniad:** |
| **C23/0849/16/LL** | Parth 7 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Codi unedau diwydiannol newydd<br>**Penderfyniad:** |
| **C23/0844/16/AM** | Parth 7 Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Datblygu 4 uned fasnachol (amrywiol o ran maint) yn cynnwys mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr gyda maes parcio.<br>**Penderfyniad:** |
| **C23/0769/16/DT** | Penlan Mill Cottage, Llandygai<br>Codi modurdy ac estyniad cefn i'r tŷ presennol<br>**Penderfyniad:** |

**13. Unrhyw fater brys arall**

**Datblygiad Cae'r Gors -** Adroddwyd y Cyng. Beca Roberts ei bod wedi mynychu Noson Agored 'Adra' wythnos diwethaf, ac ei bod wedi ysgrifennu llythyr cryf yn erfyn iddynt gael Polisi Gosod Lleol ar gyfer dyraniad cychwynnol y cartrefi hyn. Penderfynwyd bydd y Clerc yn llunio llythyr tebyg a'i danfon ymlaen at Adra. Hefyd, nodwyd fod y contractwyr wedi bod yn cwblhau gwaith ychwanegol i'r ffôs.